



# Y Gronfa Radio Cymunedol

**Nodiadau Cyfarwyddyd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Ebrill 2018  
Rhifyn 15

# Cynnwys

<b>Adran</b>		<b>Tudalen</b>
1	Y Gronfa Radio Cymunedol (y "Gronfa")	2
2	Y broses ymgeisio a dyfarnu	5

## Adran 1

# Y Gronfa Radio Cymunedol (“y Gronfa”)

## Nodiadau Cyfarwyddyd y Gronfa

### 1.1 Y Cefndir

Mae'r Adran dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (“DCMS”) wedi gofyn i Ofcom weinyddu'r Gronfa. Mae DCMS yn rhoi hyd at £400,000 y flwyddyn i'r Gronfa (sydd ar hyn o bryd wedi cael ei gadarnhau tan 2019/20). I gael rhagor o wybodaeth am Radio Cymunedol a'r Gronfa, edrychwch ar ein gwefan: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/community-radio-fund>

### 1.2 Ar gyfer beth mae'r Gronfa?

Mae'r Gronfa wedi cael ei chreu i roi grantiau i helpu i dalu am gostau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom. Mae'r swyddogaethau craidd hyn yn cynnwys:

- rheoli
- codi arian i gefnogi'r orsaf (e.e. grantiau, cyllid masnachol)
- gweinyddu
- rheoli ariannol a llunio adroddiadau ariannol
- gwaith allgymorth yn y gymuned
- trefnu a chefnogi gwirfoddolwyr

Bydd grantiau'n cael eu rhoi fel un swm ac ar gyfer cyfnod o flwyddyn yn unig.

### 1.3 Beth NA fydd y Gronfa yn talu amdano?

Ni roddir grantiau ar gyfer y canlynol:

- Offer/gwariant cyfalaf (ar gyfer y swyddfa, stiwdio, trawsyrru ayb)
- Cost cerbydau
- Treuliau gwirfoddolwyr
- Costau trwsio, adeiladu neu gynnal a chadw adeiladau
- Costau rhaglenni neu farchnata
- Biliau cyfleustodau
- Taliadau rent a/neu forgais
- Ffioedd trwydded, ffioedd hawlfraint
- Grantiau ôl-weithredol h.y. i dalu am wariant sydd eisoes wedi digwydd
- Talu am ad-dalu benthyciadau
- Ffioedd cyfarwyddwyr cwmni
- Costau sydd wedi'u had-dalu neu sydd i'w had-dalu gan gyllid gan awdurdodau cyhoeddus eraill neu gan y sector preifat

- Taliadau llog (gan gynnwys taliadau ffioedd gwasanaeth am lesau cyllid)
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau

#### 1.4 Faint allwn ni wneud cais amdano?

Nid oes terfyn ar y swm cewch chi wneud cais amdano. Serch hynny, dylai ymgeiswyr hefyd ystyried datganiadau'r Panel ynghylch rowndiau blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys rhestr o grantiau blaenorol, y swm cyfartalog a roddwyd yn y rownd honno, a 'materion o bwys a gododd o gyfarfod y Panel'. Mae'r olaf yn cynnwys cyngor i ymgeiswyr ynghylch yr hyn mae'r Panel yn chwilio amdano yn ogystal â'r problemau cyffredin gyda cheisiadau.

Mae'r datganiadau ar gael ar ein gwefan o dan y pennawd 'dyfarnu grantiau blaenorol' yma: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/community-radio-fund>

#### 1.5 Meini Prawf Cymhwyso y Cais

- Dim ond i drwyddedigion radio cymunedol ("Trwyddedai") mae modd rhoi grantiau. (**Nid** yw gorsafodded sydd wedi cael eu trwyddedu o dan Orchymyn Radio Cymunedol (Guernsey) 2013 yn gymwys i gael cyllid).
- Dylai fod o leiaf pymtheg mis ar ôl ar y drwydded o ddyddiad penderfyniad y Gronfa (fel rheol ym mis Ionawr a mis Mehefin, mae'r union ddyddiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom).
- Dim ond y cwmni sy'n dal y drwydded sy'n cael cyflwyno ceisiadau a dim ond iddyn nhw y dyfernir grantiau.
- Fel rheol bydd dwy rownd o ddyfarniadau grantiau ym mhob blwyddyn ariannol. Fel rheol, os cafodd Trwyddedai grant (neu grantiau) mewn un rownd o gyllid, ni fydd yn cael ei ystyried ar gyfer grant arall yn yr un flwyddyn ariannol. Mae modd i Drwyddedai o'r fath wneud cais yn y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd wedyn. Rhaid i drwyddedigion sydd wedi cael grant mewn rownd cyllido flaenorol adrodd ar sut cafodd y grant hwnnw ei wario cyn cyflwyno cais newydd.
- Rhaid i drwyddedigion sydd wedi cael grant mewn rownd cyllido flaenorol adrodd ar sut cafodd y grant hwnnw ei wario cyn bod modd eu hystyried am grant arall. Mae'r ffurflen adroddiad grant ar gael ar ein gwefan yma <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/community-radio-fund>
- Rhaid i geisiadau ar y cyd gael eu cyflwyno gan ddau Drwyddedai neu ragor, er enghraifft i dalu ar y cyd am swydd a fydd yn cael ei rhannu. Serch hynny, dylid enwebu un Trwyddedai i reoli'r grant a bydd yn cael ei dalu i'r cwmni hwnnw (ac ni fydd yn cael ei rannu rhwng dau neu ragor).
- Dim ond ar ôl i orsaf lansio (a dod yn un o drwyddedigion Ofcom) y bydd modd gwneud taliad. O ganlyniad ac er mwyn helpu i weinyddu'r Gronfa, rhaid i'r ymgeiswyr fod ar yr awyr erbyn yr adeg y caiff ceisiadau eu hystyried (mis Ionawr a mis Mehefin fel rheol; caiff yr union ddyddiadau eu cyhoeddi ar wefan Ofcom).

#### 1.6 Gorsafodded cymunedol yng Nghymru

Mae modd cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn ddim llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.

Yn unol â'r Hysbysiad Cydymffurfio a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011<sup>1</sup>, pan fydd Ofcom yn gwneud penderfyniadau am ddyfarnu grant, rhaid iddo hefyd ystyried y canlynol:

- a) pa effeithiau, os o gwbl (ac a fydden nhw'n gadarnhaol neu'n negyddol), byddai dyfarnu'r grant yn eu cael ar-
  - i. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - ii. trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg;
- b) sut byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd neu ei weithredu (er enghraifft, drwy osod amodau grant) er mwyn iddo gael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol, ar-
  - i. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - ii. trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg; a
- c) sut byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd neu ei weithredu (er enghraifft, drwy osod amodau grant) er mwyn iddo beidio â chael effeithiau andwyol neu iddo beidio â chael rhagor o effeithiau andwyol ar-
  - i. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - ii. trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn unol â hynny, er mwyn helpu'r Panel i ystyried ceisiadau, bydd gofyn i unrhyw ymgeiswyr ar ran gorsafoedd yng Nghymru ddarparu gwybodaeth yn eu cais am effeithiau grant ar y Gymraeg, fel y nodir uchod.

---

<sup>1</sup> Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/wales>.

# Y broses ymgeisio a dyfarnu

## 2.1 Gwybodaeth am y cais

**Bydd y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau ym mhob rownd cyllido yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ofcom.**

Ni fydd ceisiadau a fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau hwnnw'n cael eu hystyried.

## 2.2 Sut mae ymgeisio

- Llwythwch y ffurflen gais i lawr oddi ar wefan Ofcom. Cewch gyflwyno cais Cymraeg neu Saesneg ac mae ffurflenni cais yn y naill iaith a'r llall ar gael ar y wefan. Dylai ceisiadau ac unrhyw ddogfennau ategol priodol gyrraedd Ofcom erbyn 5pm ar y dyddiad cau a hysbysebhir, **dros e-bost os yn bosib** i [communityradiofund@ofcom.org.uk](mailto:communityradiofund@ofcom.org.uk). Dylai'r ffurflen gais a'r dogfennau ategol fod ar fformat Word, RTF neu Excel, yn hytrach na PDF. Nid yw ein system e-bost yn gallu derbyn negeseuon e-bost sydd ag atodiadau sy'n fwy na 10 Megabeit. Felly, os bydd yr holl ddogfennau gyda'i gilydd yn fwy na hyn, mae modd anfon unrhyw ddogfennau ategol drwy'r post a'u cyfeirio at Community Radio Fund (5<sup>th</sup> Floor), Ofcom, 2A Southwark Bridge Road, London, SE1 9HA. Gwnewch yn siŵr eich bod yn postio'r rhain mewn da bryd cyn y dyddiad cau a hysbysebhir er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd erbyn y dyddiad cau. Cysylltwch â'r Tîm cyn diwrnod y dyddiad cau os cewch chi unrhyw broblemau.
- Byddwch yn glir ac yn gryno ynghylch beth fydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Rhowch wybodaeth am ddiben ac amcanion y grant, ac amserlen ar gyfer gwario'r grant. Os ydych chi'n gofyn am gyllid ar gyfer staff, dylech chi ddarparu disgrifiad(au) swydd, a dadansoddiad ariannol rhwng y cyflog ac argostau'r cyflogwr (fel yswiriant gwladol, pensiwn a ffi reoli'r cyflogwr). Byddwn ni hefyd angen gwybodaeth am gyllideb a chyllid yr orsaf er mwyn ein helpu i ddeall anghenion y Trwyddedai. Ar gyfer gorsafodded yng Nghymru, darparwch yr wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani ynghylch effeithiau grant ar yr iaith Gymraeg.
- Mae modd cyflwyno cais am fwy nag un diben (dylid cynnwys y manylion ar yr un ffurflen). Os nodir mwy nag un diben grant, dylai'r Trwyddedigion nodi'r flaenoriaeth a roddir i bob un drwy eu rhestru yn nhrefn eu pwysigrwydd. Caiff y Panel roi grant i ymgeisydd i dalu am fwy nag un diben. Serch hynny mae'r flaenoriaeth berthnasol y bydd y Panel yn ei rhoi i unrhyw ddiben yn gyfan gwbl yn ôl disgrisiwn y Panel.
- Dylai pob ymgeisydd nodi ei resymau dros wneud cais am grant a dadlau ei achos am gyllid o dan gwestiwn 4.
- Bydd gwybodaeth ychwanegol a gyflwynir ond yn cael cynnwys: disgrifiadau swydd, manylebau person, crynodebau o incwm a gwariant ac adroddiadau Cronfa berthnasol.
- Os oes gennym unrhyw ymholiadau am yr wybodaeth a gyflwynir, byddwn yn gofyn i'r Trwyddedai am esboniad. Ni cheir cyflwyno unrhyw wybodaeth newydd ar ôl y dyddiad cau ac eithrio gwybodaeth y bydd Ofcom yn gofyn amdani (ac eithrio os oes newid ym manylion cyswllt y Trwyddedai).

- Bydd ceisiadau i'r Gronfa yn cael eu trin yn gyfrinachol ac ni fyddant yn cael eu cyhoeddi.
- Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni dros y ffôn: Vanessa Kudom 020 7981 3087 neu Soo Williams ar 020 7783 4319, neu e-bost: [communityradiofund@ofcom.org.uk](mailto:communityradiofund@ofcom.org.uk)

### 2.3 Penderfyniadau ynghylch grantiau

- Bydd Panel Cronfa Radio Cymunedol Ofcom yn ystyried pob cais. Mae penderfyniadau'r Panel yn derfynol. Mae rhagor o wybodaeth am y Panel ar gael ein gwefan yma. <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/committees/community-radio-fund-panel>
- Byddwn yn rhoi gwybod i Drwyddedigion am ganlyniad y rownd dyfarnu ceisiadau dros e-bost. Rhoddir gwybod i'r enw cyswllt a fydd wedi cael ei nodi ar y ffurflen. Bydd adborth cyffredinol ynghylch y rhesymau pam nad oedd ceisiadau wedi llwyddo yn cael ei gyhoeddi mewn datganiad am y dyfarniadau.
- Bydd penderfyniadau ynghylch dyfarniadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom. Cyhoeddir pwy sydd wedi cael grant, swm y grant a diben y grant.

### 2.4 Beth sy'n digwydd nesaf?

- Mae grant yn amodol ar y Trwyddedai yn llofnodi Cytundeb Grant Cronfa Radio Cymunedol ("Cytundeb") a chaiff hwn ei anfon at y trwyddedai ynghyd â ffurflen yn gofyn am fanylion banc. Bydd y Cytundeb yn cadarnhau bod y Trwyddedai yn derbyn y grant ar y sail y bydd yn cael ei ddefnyddio at y diben sy'n cael ei ddisgrifio yn yr Atodiad i'r Cytundeb, ac yn unol â'r holl amodau a nodir yn y Cytundeb.
- Os dyfernir grant, bydd yn rhaid i'r Trwyddedai ddefnyddio'r grant cyn pen cyfnod penodol (a fydd yn cael ei nodi yn y Cytundeb).
- Ar ôl i'r Cytundeb a'r ffurflen manylion banc gael eu llenwi a'u dychwelyd at y Tîm, trefnir i'r grant gael ei drosglwyddo drwy BACS i gyfrif banc y Trwyddedai.
- Rhaid i'r grantiau gael eu talu yn y flwyddyn ariannol y caiff y dyfarniad ei wneud ynddi.
- Os dyfernir cyllid, bydd yn rhaid i'r Trwyddedai ddefnyddio'r grant cyn pen cyfnod penodol.
- Bydd yn rhaid i drwyddedigion sy'n cael grant gyflwyno adroddiad ar sut cafodd y grant ei wario. Os na chyflwynir adroddiad boddhaol, efallai y bydd Ofcom yn gofyn am y grant yn ôl ac ni fydd fel rheol yn ystyried rhoi grant arall i'r Trwyddedai.
- Os nad ydy grant wedi cael ei wario yn unol â'r diben y cytunwyd arno heb gytundeb Ofcom ymlaen llaw, neu os nad yw Trwyddedai wedi cydymffurfio ag amodau cyllido eraill, caiff Ofcom ofyn am ad-daliad o'r grant ac fel rheol ni fydd yn ystyried rhoi grant arall i'r Trwyddedai.

### 2.5 Gwybodaeth ychwanegol

- Bydd gofyn i'r Trwyddedai adrodd i Ofcom ynghylch sut mae'r grant wedi cael ei wario. Mae ffurflen adroddiad grant ar gael ar wefan Ofcom yn <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/community-radio-fund>

- Os bydd Trwyddedai yn gwneud cais am grant cyn i grant cyfredol gael ei wario, bydd disgwyl iddo lenwi ffurflen adroddiad grant interim, gan adrodd ar y gwariant hyd yma o'r grant hwnnw.
- Mae Ofcom yn disgwyl i Drwyddedigion roi gwybod i'w cymuned am y gweithgareddau cymunedol a gefnogir gan y Gronfa e.e. drwy gyhoeddi datganiad ar eu gwefan neu drwy gyhoeddiadau ar yr awyr.
- Gall diben a chwmpas grantiau gan y Gronfa amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae modd amrywio'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn unol â hynny. Mae'n bosibl i'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn gael eu newid yn y dyfodol. Cynghorir yr ymgeiswyr i edrych ar wefan Ofcom i weld y fersiwn diweddaraf o'r Nodiadau Cyfarwyddyd a'r ffurflen gais.

Diwygiwyd Ebrill 2018 - Rhifyn 15